CEFNOGWYD GAN
COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

RHAGOR iaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# CANLLAW STAFF: DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL YN GYMRAEG

**Prosiect dan nawdd y Coleg Cymraeg a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.**

Bwriad y canllaw hwn yw cefnogi staff addysgu i arwain ac annog defnydd cyfrifol o AI, gan gynnal uniondeb academaidd a thegwch ieithyddol.

Byddwn yn argymell i bob aelod o staff ymgymryd â hyfforddiant sefydliadol o ran defnydd AI (llythrennedd AI), a darllen canllawiau swyddogol eich sefydliad. Rhaid cynnwys canllaw defnydd AI mewn manylebau asesu, a rhaid darparu datganiad AI at ddefnydd eich myfyrwyr yn eu hasesiadau.

Dylid nodi mai ystyriaethau cyffredinol yw nifer o'r argymhellion isod, megis gwirio dilysrwydd ffynonellau, creu promptiau effeithiol er mwyn mireinio'r allbwn ac hefyd i chwilio'n ddyfnach ac yn benodol; gwirio'r iaith a gwirio am rithwelediadau. Ond pwysleisir yma fod ystyriaethau ehangach wrth drin y Gymraeg oherwydd cyfyngder adnoddau cyfrwng Cymraeg sy'n bodoli ar y rhyngrwyd.

Er mwyn deall natur yr her sy'n wynebu defnyddwyr Cymraeg eu hiaith, dyma fraslun o sut mae AI yn ymdrin â ieithoedd a'r goblygiadau sydd felly ar gyfer defnyddwyr ieithoedd lleiafrifol fel y Gymraeg:

- Adnodd isel (Iaith sydd â chorpws digidol cymharol fach ar gyfer hyfforddi modelau AI)
- Diffyg adnoddau a ffynonellau
- Rhagfarn
- Diffygion cyfieithiadau peiriannol
- Pwysigrwydd peirianneg promptiau (prompt engieneering)

## Egwyddorion Arweiniol

- [ ] Symud o wahardd i arwain (cyflogadwyedd; AI = sgil cyfredol craidd;) ymgorffori hyn yn ein hasesiadau

- fel rhan o'r asesiad
- dod i'r arfer o gadw cofnod o ddefnydd

- [ ] Bod yn eglur ac yn dryloyw

- am eich defnydd chi
- am eich disgwyliadau chi
- am uniondeb academaidd a'r hyn a ganiateir yn eich asesiadau

Rhaid trafod yn agored – ac yn dryloyw

- [ ] Cydnabod anfanteision y Gymraeg mewn AI

- iaith
- ffynonellau (diffyg ohonynt / diffyg dyfnder y chwiliad i.e. algorithmau yn hybu'r hyn sy'n boblogaidd
- dibynadwyedd gwybodaeth (oherwydd bylchau yng ngwybodaeth yr LLMs)
- rhagfarn

## Dylunio ac Asesu Aseiniadau

Argymhellir:

- Asesu'r broses – disgwyliadau, cyfyngiadau clir
- Defnyddio drafftiau ac adfyfyrio
- Tasgau personol a chyd-destunol
- Tasgau sy'n ymgorffori defnydd o AI – herio'r allbwn /
- Tasgau personol a chyd-destunol

## Ansawdd Iaith Gymraeg

Os yw "Ysgrifennu" gydag AI yn cael ei ganiatáu, yna, rhaid asesu'r allbwn hwn pe ysgrifennir yn y Gymraeg. Adeg ysgrifennu'r canllaw, gwelir enghreifftiau o:

- Cystrawn annaturiol gydag ôl-cyfieithu peirianyddol (yn enwedig mewn cystrawennau idiomataidd).
- Diffyg treigladau cyson
- Rhithwelediadau
- Arddull wahanol i waith blaenorol – anghysondeb mewn cywair

Dylid defnyddio'r rhain fel sail ar gyfer trafodaeth academaidd.

- **Annog myfyrwyr i wirio'r Gymraeg** sydd gan AI gan egluro'r cyfyngiadau ieithyddol a ffynonellol.

- **Modelu defnydd cyfrifol o AI**: dangos sut i wirio ffynonellau, sut i adnabod camwybodaeth, a sut i gadw llais personol.

- **Darparu cyfarwyddiadau clir** ar sut mae defnyddio AI yn briodol mewn aseiniadau, gan gynnwys beth sy'n dderbyniol a beth sy'n anaddas, a'u hannog i gydnabod eu defnydd o AI (neu beidio).

- **Hybu defnydd o adnoddau Cymraeg** (e.e. Cysill, Cysgeir, Termau Cymru, Macsen, Y Trawsgrifiwr) ochr yn ochr ag AI rhyngwladol. Er enghraifft:

  Gallwch gyfeirio'ch myfyrwyr ar Helo Blod lle ceir rhestr o adnoddau digidol https://busnescymru.llyw.cymru/heloblod/technoleg-gymraeg

- Gallwch gynllunio gweithgareddau sy'n annog myfyrwyr i ddefnyddio AI fel adnodd dysgu ac nid fel peiriant cynhyrchu testun.

## Cwestiynau Cyffredin

- *Ymarferoldeb: All offer AI weithredu'n effeithiol gyda mewnbwn ac allbwn Cymraeg?*

Gall. Ond, nid yw'r darlun yn wastad nac yn gyson. Mae'n datblygu ar garlam, gyda gwaith arloesol Llywodraeth Cymru, Canolfan Bedwyr ac eraill, mae ymdrechion i sicrhau lle i'r Gymraeg mewn technolegau. Nid yw ystod y cyfleuon na'r pwll o adnoddau eto'n ddigonol i roi'n myfyrwyr ar droedle llwyr gyfartal o ran mynediad at offer AI.

- *Cywirdeb: Beth yw lefel y cywirdeb ieithyddol wrth ddefnyddio AI yn y Gymraeg?*

Eto, nid yw'r darlun yn gyson ar draws y platfformau rhyngwladol sydd ar gael i'n myfyrwyr. Serch hynny, dengys yr enghreifftiau a geir yn yr adroddiad hwn bod safon yr iaith a allbynnir yn ddefnyddiol, ac nid yw'r anghysondebau'n rhwystr. Mae angen datblygiadau o ran priod-ddulliau y Gymraeg, a rhaid i'n myfyrwyr fod yn ymwybodol o hyn.

- *Hygyrchedd: I ba raddau y gellir cyrchu cynnwys Cymraeg trwy AI?*

O ran y platfform a argymhellir gan PCYDDS (sy'n golygu'r un mesurau diogelu a geir gyda holl offer Microsoft) sef Copilot, dengys ein hymchwil bod modd ei ddefnyddio ar gyfer strwythuro traethawd, ymchwil a chrynhoi dogfennau Cymraeg gydag allbwn Cymraeg. Serch hynny, ar adeg llunio'r adroddiad hwn, nid yw'r iaith bob amser yn ddibynadwy, yn gywir nac yn Gymreig ei naws. Bydd angen gwirio, a dibynnu ar wybodaeth ddynol y rhai sy'n llunio gwaith academaidd ar sail yr allbwn peirianyddol.

## Prif bwyntiau'r canllaw (crynodeb):

•Arwain, nid gwahardd: Dylai staff addysgu fodelu a hyrwyddo defnydd cyfrifol o AI, gan gynnwys trafod disgwyliadau, uniondeb academaidd a sut i gofnodi defnydd o AI.

•Bod yn dryloyw: Rhoi gwybodaeth glir i fyfyrwyr am yr hyn sy'n cael ei ganiatáu neu ei wahardd mewn aseiniadau, a sut y dylent gydnabod neu beidio â chydnabod defnydd o AI.

• Cydnabod anfanteision ieithyddol y Gymraeg: Diffyg adnoddau, rhagfarn mewn fodelau byd-eang, a chyfyngiadau cywirdeb sy'n golygu bod angen gwirio iaith ac adnabod rhithwelediadau.

•Cynllunio asesiadau sy'n caniatáu dysgu drwy AI: Defnyddio tasgau personol, cyd-destunol, drafftiau ac adfyfyrio; asesu'r broses a herio allbwn AI.

•Sicrhau ansawdd iaith Gymraeg: Pwysleisio gwirio treigladau, idiomau, cysondeb a chywirdeb gan fod allbwn AI yn gallu cynnwys nodweddion o ôl-gyfieithu llythrennol ac anghysondebau.

• Defnyddio ac annog adnoddau Cymraeg: Cysill, Cysgeir, Termau Cymru, Macsen a'r Trawsgrifiwr — sy'n fwy dibynadwy na systemau rhyngwladol ar gyfer trawsgrifio ac iaith Gymraeg.

•Amodau defnyddioldeb AI yn y Gymraeg: Mae AI yn ddefnyddiol ar gyfer strwythuro, crynhoi ac ymchwilio ond nid yw bob amser yn gywir nac yn ddibynadwy'n ieithyddol; rhaid gwirio a defnyddio barn ddynol bob tro.